National Cardiovascular Research Network
Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd

Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd: Egwyddorion Cyllido Grantiau Bach

Cefnogir y Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd (NCRN) gan gyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r British Heart Foundation (BHF). Mae cyllid y BHF wedi'i glustnodi'n benodol i gefnogi cynlluniau grantiau bach. Gwneir dyfarniadau yn unol ag Amodau Grant Safonol y BHF ac egwyddorion cyllido canlynol NCRN:

1. **Diben y Cyllid a'r Defnydd Ohono**
   - Rhaid defnyddio cyllid dim ond ar gyfer y gweithgareddau sy'n cael eu disgrifio yn y cais a gymeradwyir.
   - Dylai ymgeiswyr wneud pob ymdrech i gwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Os bydd angen estyniad, cysylltwch ag NCRN cyn gynted â phosibl.
     Ni chaiff cyfanswm y grant a ddyfernir fod yn fwy na'r swm sy'n cael ei ddatgan yn llythyr y dyfarniad.

2. **Rheolaeth Ariannol**
   - Rhaid gwario'r cyllid yn unol â'r dadansoddiad o'r gyllideb a ddarparwyd yn y cais. Rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw cyn ailddosbarthu cyllid rhwng penawdau'r gyllideb.
   - Rhaid i ymgeiswyr gadw cofnodion ariannol cywir a chadw tystiolaeth o wariant (e.e. derbynebau, anfonebau).
   - Bydd hawliadau cyllid yn cael eu had-dalu'n chwarterol ar ffurf ôl-daliadau, yn seiliedig ar wariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb gymeradwy. Ni fydd hawliadau hwyr yn cael eu had-dalu.
   - Rhaid dychwelyd unrhyw gyllid sydd heb ei wario neu ei hawlio, oni chytunir yn wahanol.

3. **Cydymffurfio**
   - Os bydd eich gweithgaredd yn gofyn am unrhyw gymeradwyaethau ffurfiol (fel cymeradwyaeth foesegol), sicrhewch fod y rhain ar waith cyn dechrau. Os nad ydych chi'n siŵr, mae croeso i chi gysylltu â ni am arweiniad.

4. **Adrodd ac Allbynnau**
   - Rhaid cyflwyno **Ffurflen Gwerthuso'r Prosiect**, wedi'i llenwi, o fewn mis o ddyddiad gorffen y prosiect.
   - I helpu NCRN i fodloni ei rwymedigaethau adrodd, rhaid rhannu manylion unrhyw allbynnau a deilliannau sy'n codi o'r gweithgarwch a ariennir gan NCRN. Gallai hyn gynnwys cyhoeddiadau, cyflwyniadau, cynnwys ar y we (e.e. fideo/podlediad), neu geisiadau grant dilynol, ynghyd ag unrhyw gyhoeddiadau, cyflwyniadau neu allbynnau eraill sy'n deillio o gyllid dilynol.
   - Dylai ymgeiswyr gydnabod bod hyrwyddo mentrau a ariennir yn rhan bwysig o genhadaeth NCRN. Trwy dderbyn y dyfarniad, rydych chi'n cytuno i gydweithredu'n ddidwyll â cheisiadau rhesymol i gefnogi gweithgareddau hyrwyddo, fel rhannu diweddariadau ar y prosiect, cymryd rhan mewn astudiaethau achos, neu gyfrannu at gyfathrebiadau NCRN.

5. **Cydnabod a Chyhoeddusrwydd**
   - Dylai pob allbwn a gweithgarwch, gan gynnwys digwyddiadau, cyfarfodydd, cyflwyniadau, erthyglau a phosteri, gydnabod cefnogaeth gan y Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd, y British Heart Foundation ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gan ddefnyddio'r frawddeg ganlynol:
     Cefnogwyd y gwaith hwn gan y Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd ac fe'i hariannwyd gan y British Heart Foundation, ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru."

   - Gyda'ch caniatâd chi, gallem gynnwys eich enw, teitl, sefydliad, teitl y prosiect a chrynodeb o'r prosiect ar wefan NCRN neu yn ein hadroddiad blynyddol.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

British Heart Foundation